

Trawsfynydd Site Closure Director's Report

6 June 2016

**Martin Moore
Closure Director**



Site Closure Director's Summary

The site continues to make good overall progress whilst undertaking significant organisational changes and delivering a revised Lifetime Plan (LTP).

We have had a better period in regard to our safety performance, with no further lost time accidents or injuries. A lot of work by everyone on site has gone into ensuring that proactive reporting and management of issues occurs early to avoid accidents or harm – what we call event reporting. I have seen a significant improvement in the standards of work on the site, and we have invested in changes to work areas and work practices to ensure that we achieve our objective which is that “No one gets hurt on our site”.

Since the previous SSG in December 2015 we have completed our LTP submission to NDA and are working with NDA to enable approval of this plan. The key changes include a revised programme which now has a period of continuous work up to and including the implementation of the weather barrier and associated height reduction on the reactor safestores. The work programme is expected to be complete in Financial Year 2028/29.

In the period 2016 to 2022 we will complete the hazard reduction phase of works and complete the transfer of Intermediate Level Waste packages into the Interim Storage Facility (ISF). This year will see completion of the drum/stillage transfers into the ISF, and the store will be approximately 50% full.

A number of new plant areas will move from Commissioning into Operations this year, the first of these will be the Miscellaneous Sludge Facility (MSV), which is now producing ILW waste packages. This will be followed the Fuel Element Debris (FED) handling plant later in the year.

The workforce organisational changes that we highlighted in the December 2015 meeting have now completed, and I am pleased to say that we have been able to retain most of the directly employed workforce at Trawsfynydd, and in addition provided employment to a number of Wylfa employees at our site, retaining local labour in the Welsh region. We have released a small number of supply chain workers as part of the balancing of resources within the revised work programme.

Finally, we recently hosted a visit to the site from the Welsh Affairs Parliamentary Committee in support their Inquiry into The Future of Nuclear Power in Wales. As part of this process, both myself and the Magnox Managing Director (Kenny Douglas), and the Wylfa Site Director (Stuart Law) were also called to Westminster to give evidence in support of their Inquiry into The Future of Nuclear Power in Wales. The visits to the site were reported to have been very useful and informative.

Key achievements against headline deliverables for FY2015/16:

Retrieval and packaging of the first and second 3m³ drums from Main Sludge Vault (MSV) has been completed to programme. The plant is undergoing further active commissioning trials, and whilst there have been initial delays and reliability issues, these have been resolved and the plant continues towards full operation later this year.

Fuel Element Debris (FED) retrieval preparations have progressed well, and the North FED facility has commenced non-active commissioning. FED retrievals remain on target to commence towards the end of 2016.

The site has completed the transfer of ILW drums from the North drum store to the new ILW store.

Following the completion of the Under-Ponds characterisation work, Drain No 7 was identified as containing ILW material. The Ponds team have now successfully completed the removal of this ILW material. It is anticipated that additional Sampling Drains may need to be removed moving forward.

An NDA hosted workshop in May has seen regional government and councils meet to discuss and share understanding on the revised Guidance on Release from Radioactive Substances Regulations (GRR) published by the Environment Agencies. Here at Trawsfynydd work has progressed well with to develop the site programme based on this new guidance, and further work in the next year will include dialogue with key stakeholders on the implementation of this guidance. The revised LTP reflects these activities and timescales for delivery of this work.

Following completion of the physical reactor vessel inspection and sampling activities this year, a technical report has been produced to underpin the long term integrity of the reactor core assemblies, over the planned Care & Maintenance period. The report was formally submitted for consideration to the Magnox Nuclear Safety Committee in April and was well received.

Martin Moore
Closure Director

Site Projects: Key achievements December 2015 – May 2016

Since the last SSG meeting it has been a very busy period and we have made significant progress on a number of decommissioning projects as summarised below:

Reactor safestore external repairs phase 2/3

This work involves improvements to the external safestores weather envelope:

- Replacing 16 external timber doors with steel doors.
- Replacing circulator hall high level and ground floor windows with steel cladding.
- New liquid plastic decothane waterproofing system to the circulator hall roofs.
- Removal of 12 large concertina doors and replacing 9 with cladding and 3 with new doors.
- Concrete repairs to the high eastern elevations (rope access work).

Project start: February 2016, scheduled completion: February 2017.



Reactor safestore level 1- 5 ICM preparations

Work has progressed well with more than a third of floor levels in both safestores now empty and locked off. This has involved the removal of a substantial amount of legacy waste/materials. When the programme completes, all twenty-two levels of the two reactor safestore buildings will be clear of legacy waste, residual hazards will be stabilised and managed and the areas locked off.

Project start: End 2015, scheduled completion: August 2016

Safestore boiler ends strengthening works phase 1

This work involves the removal of over 6,000 scaffold boards and asbestos contaminated legacy scaffolds from 11 boiler boxes and 7 interspaces. These will be replaced with smaller scaffolds built to facilitate the future strengthening works.

Project start: End 2015, scheduled completion: December 2016

Safestore boiler ends strengthening works phase 2

Following the removal of the legacy scaffold and the provision of a compliant scaffold access structure to the boiler boxes and interspaces it will be possible to commence the final strengthening activities to the two reactor safestores. This scope of work includes asbestos cleans prior to the installation of strengthening brackets and the installation of new ventilation louvres. This package of work is out for tender with applications due mid May. Physical works are forecast to commence July 2016.

Under ponds drains

Following the successful DAR 4 for the removal of Drain No 7 and the subsequent letter to implement, work commenced on the removal of Joint / Drain 7 on Feb 10 2016. A programme was developed to remove the Intermediate Level Waste (ILW) inventory by the end of the financial year and the scope was successfully completed on the 30 March 2016. The successful removal of Drain No 7 accounts for approximately 50% of the ILW inventory for the whole of the ponds. The backfill of the trench is programmed for mid-June following the removal of 27 No 50mm core samples for analysis.

Following the completion of North Acceptance Bay (NAB) scabbling decontamination, access is now available to Drain No1. This enables the team to carry out the 300mm diameter cored access hole above the drain allowing access to the filter media within the Drain No 1 trench. A technical scope of work has been produced for the sampling and inspection of Drain No 1 along with Drain No 16.

Ponds scabbling

The scabbling decontamination for both NAB and South Acceptance Bay (SAB) has been completed. Work has started on the BROKK access door from within the SAB to enable the BROKK access to complete the scabbling decontamination to the Ponds South Void (PSV).

The Ponds North Void (PNV) currently stores 126 stainless steel baskets loaded with legacy Intermediate Level Waste. The PNV baskets are to be disposed of via the FED programme to complete the decontamination and characterisation of these areas. The project is currently at detailed design stage. Removal of the baskets is planned for Oct 2016.

Legacy waste

Works to dispose legacy waste is progressing well with the 2015/2016 target of reducing the accumulated waste by 100m³ largely achieved. The site team are now focusing on progressing some of the older historic ISO containers which were filled 10 years ago.

The site has also successfully trialled the use of the Drum compactor, which has already compacted a number of drums, significantly reducing their volume, and reducing the total waste despatch from the site.

Off-site disposal of Ponds Flask Washdown Bay crane rails (5.2te) for LLW metal recycling, representing a legacy which had been in a laydown area for over 10 years.

Disposal of 36 x 210 litre drums of legacy oily waste, some dating back to generation, for incineration.

Higher Activity Waste Programme

The site has now successfully retrieved the first ILW sludge from the Main Sludge Vaults (MSV). Two waste packages have now been filled, the waste immobilised in grouted liners and is now stored in the ILW storage facility.



During March, the site completed the transfer of a total 715 type 1803 drums from the North drum store (RSP) to the ISF. Although a challenge in its self, due to ageing plant, this now leaves the resin Plant Drum Store and RSP building available for decommissioning or reuse to support other site programmes.



Environment, Health, Safety, Security and Quality

Safety overview December 2015 - May 2016

Through the majority of the period site has exhibited a good reporting culture, across the whole workforce, unwilling to tolerate substandard conditions or behaviours.

Concerns have been raised regarding the render applied to encapsulate loose material on the external elevations of the western stairwells of the Safestore buildings. Specialist contractors have been employed to diagnose the problem and propose a solution. This will be adopted at the earliest opportunity.

There is also concern regarding the integrity of the ILW Store roof cladding. This does not affect the Radiological protection in any way but is a concern from a conventional safety perspective. The cladding installers have been recalled to site to make good.

There has been a trend in spurious fire alarm. These have been investigated by Systems Engineering resulting in the proposed replacement installation of a detection system along part of the Ponds corridor.

Although in general the site has an excellent record for working safely at height two incidents in quick succession namely a dropped object and an individual observed not clipped on led to the stand down of a contractor until such time as site were satisfied that suitable measures had been put in place to ensure the safety of all personnel.

Visits

The Welsh Affairs Committee visited site on 25 April to learn more about decommissioning as part of an enquiry into the future of nuclear power in Wales.



People

We continue to support our workforce during the transition towards Care & Maintenance. The numbers employed or supported through the site as of 30 April were:


Staff	155
Agency	51
Total	206

Community

16 community organisations received a share of £91,412 Magnox socio-economic scheme funding in 2015/16 as detailed in the socio-economic report.

Y Traeth Skills Academy

Porthmadog Football Club has secured a £131,000 funding package to build an extension on the existing clubhouse which will be developed as a skills and training centre for local people. £40,373 Magnox socio-economic scheme funding has been awarded towards build and training equipment costs. Coleg Meirion Dwyfor has signed up to deliver employability skills training at the new training venue from September.



For more information and the latest news from Trawsfynydd, visit:

<https://magnoxsites.com>

<https://twitter.com/magnoxsites>

<https://www.linkedin.com/company/magnox>

<https://www.flickr.com/photos/magnoxsites>

Adroddiad Cyfarwyddwr Cau Safle Trawsfynydd

6 Mehefin 2016

Martin Moore
Cyfarwyddwr Cau



Crynodeb Cyfarwyddwr Cau'r Safle

Mae'r safle'n dal i wneud cynnydd cyffredinol da tra'n gwneud newidiadau mawr i'r sefydliad ac yn cyflawni Cynllun Oes diwygiedig.

Rydym wedi cael cyfnod gwell o ran ein perfformiad yng nghyswllt diogelwch, heb ragor o ddamweiniau colli amser nac anafiadau. Mae llawer o waith wedi'i wneud gan bawb sydd ar y safle er mwyn sicrhau bod unrhyw broblemau'n cael eu canfod yn gynnar drwy ddulliau rhagweithiol ac yn cael eu rheoli er mwyn osgoi damweiniau neu niwed – rhoi gwybod am ddiwyddiadau. Rydw i wedi gweld gwelliant sylweddol mewn safonau gweithio ar y safle, ac rydym wedi buddsoddi mewn newidiadau i ardaloedd gweithio ac arferion gweithio er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein hamcan, sef "Does neb yn cael anaf ar ein safle ni".

Ers cyfarfod diwethaf Grŵp Rhanddeiliaid y Safle yn Rhagfyr 2015 rydym wedi cwblhau'r Cynllun Oes y byddwn yn ei gyflwyno i'r Awdurdod Datgomiysynu Niwclear ac rydym yn gweithio gyda'r Awdurdod Datgomiysynu Niwclear er mwyn sicrhau bod y cynllun hwn yn cael ei gymeradwyo. Mae'r prif newidiadau'n cynnwys rhaglen ddiwygiedig sydd bellach â chyfnod o waith di-dor hyd at a chan gynnwys gweithredu'r system atal tywydd a gwaith cysylltiedig i ostwng uchder storfeydd diogel yr adweithyddion. Disgwylir y bydd y rhaglen waith yn cael ei chwblhau ym Mlwyddyn Ariannol 2028/29.

Yn y cyfnod rhwng 2016 a 2022 byddwn yn cwblhau cam lleihau peryglon y gwaith ac yn cwblhau'r gwaith o drosglwyddo pecynnau Gwastraff Lefel Ganolraddol i'r Cyfleusterau Storio Dros Dro. Eleni bydd y gwaith o drosglwyddo'r drymiau/stelinau i'r Mannau Storio Dros Dro yn cael ei gwblhau, a bydd y storfa tua hanner llawn.

Bydd nifer o safleoedd newydd yn newid o Gomisiynu i Weithrediadau eleni. Y cyntaf o'r rhain fydd y Cyfleuster Slwtsh Amrywiol, sy'n cynhyrchu pecynnau gwastraff lefel ganolraddol ar hyn o bryd. Bydd hyn yn cael ei ddilyn gan y gwaith trin Gweddillion Elfennau Tanwydd yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

Mae'r newidiadau i'r gweithlu y cyfeiriasom atynt yng nghyfarfod Rhagfyr 2015 wedi'u cwblhau erbyn hyn, ac rwy'n falch o ddweud ein bod wedi gallu cadw'r rhan fwyaf o'r gweithlu sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol yn Nhrawsfynydd, a hefyd ein bod wedi gallu cynnig gwaith i nifer o weithwyr Wylfa ar ein safle, gan gadw llafur lleol yma yng Nghymru. Rydym wedi rhyddhau nifer fach o weithwyr y gadwyn gyflenwi fel rhan o'r broses o sicrhau cydbwysedd gydag adnoddau yn y rhaglen waith ddiwygiedig.

Yn olaf, cafwyd ymweliad â'r safle yn ddiweddar gan y Pwyllgor Seneddol ar Faterion Cymreig i gefnogi eu Hymchwiliad i Ddyfodol Ynni Niwclear yng Nghymru. Fel rhan o'r broses hon, gofynnwyd i mi, Rheolwr Gyfarwyddwr Magnox (Kenny Douglas) a Chyfarwyddwr Safle Wylfa (Stuart Law) fynd i San Steffan i roi tystiolaeth i'r ymchwiliad. Dywedwyd bod yr ymweliadau â'r safle wedi bod yn ddefnyddiol iawn ac wedi darparu llawer o wybodaeth.

Y prif lwyddiannau o gymharu â'r prif ddarpariaethau ar gyfer blwyddyn ariannol 2015/16:

Mae'r gwaith o gasglu a pheycynnu'r drwm 3m³cyntaf a'r ail ddrwm 3m³o'r Brif Gladdgell Slwtsh wedi'i gwblhau yn unol â'r rhaglen. Mae rhagor o dreialon comisiynu gweithredol yn cael eu gwneud ar y safle, ac er bod rhywfaint o oedi wedi bod ar y dechrau ac ychydig o broblemau yn ymwneud â dibynadwyedd, mae'r rhain wedi'u datrys erbyn hyn ac mae'r safle'n dal i anelu at weithrediad llawn yn ddiweddarach eleni.

Mae'r paratodau ar gyfer casglu Gweddillion Elfennau Tanwydd wedi mynd yn eu blaenau'n dda, ac mae cyfleuster Gweddillion Elfennau Tanwydd y Gogledd wedi dechrau ar y gwaith comisiynu anweithredol. Mae gwaith adfer y Gweddillion Elfennau Tanwydd ar y trywydd iawn i ddechrau tua diwedd 2016. Mae'r safle wedi cwblhau'r gwaith o drosglwyddo drymiau gwastraff lefel ganolraddol o storfa ddrymiau'r gogledd i'r storfa newydd ar gyfer gwastraff lefel ganolraddol.

Ar ôl cwblhau'r gwaith o ganfod nodweddion o dan y pyllau, canfuwyd bod Draen Rhif 7 yn cynnwys deunydd gwastraff lefel ganolraddol. Erbyn hyn mae tîm y Pyllau wedi llwyddo i gael gwared ar y deunydd gwastraff lefel ganolraddol hwn. Disgwylir y bydd angen cael gwared ar Ddraeniau Samplu eraill wrth i ni symud ymlaen.

Mewn gweithdy a gynhaliwyd ym mis Mai, dan ofal yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear, cafodd cyrff rhanbarthol y llywodraeth a'r cynghorau gyfle i drafod a rhannu dealltwriaeth o'r fersiwn diwygiedig o'r Canllawiau ar Ryddhau o'r Rheoliadau Sylweddau Ymbelydrol (GRR) a gyhoeddwyd gan Asiantaethau'r Amgylchedd. Yma yn Nhrawsfynydd mae cynnydd da wedi'i wneud â'r gwaith o ddatblygu rhaglen y safle ar sail y canllawiau newydd hyn, a bydd gwaith pellach y flwyddyn nesaf yn cynnwys trafodaeth gyda'r prif randdeiliaid ynglŷn â gweithredu'r canllawiau hyn. Mae'r Cynllun Oes diwygiedig yn adlewyrchu'r gweithgareddau hyn a'r amserlen ar gyfer cyflawni'r gwaith hwn.

Ar ôl cwblhau'r gwaith o archwilio llestr yr adweithyddion a'r gweithgareddau samplu eleni, ysgrifennwyd adroddiad technegol fel sail i integriti hirdymor cydosodiadau craidd yr adweithydd, yn ystod y cyfnod Gofal a Chynnal a Chadw arfaethedig. Cafodd yr adroddiad ei gyflwyno'n ffurfiol i gael ei ystyried gan Bwyllgor Diogelwch Niwclear Magnox ym mis Ebrill a chafodd dderbyniad da.

Martin Moore
Cyfarwyddwr Cau

Prosiectau'r Safle: Prif lwyddiannau Rhagfyr 2015 – Mai 2016

Rydym wedi cael cyfnod prysur iawn ers cyfarfod diwethaf Grŵp Rhanddeiliaid y Safle ac rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol â nifer o brosiectau datgomisiynu fel y nodir yn fyr isod:

Gwaith atgyweirio allanol i storfeydd diogel yr adweithydd, cam 2/3

Mae'r gwaith hwn yn cynnwys gwelliannau i amlen dywydd y swyddfeydd diogel allanol:

- Gosod drysau dur yn lle'r 16 drws pren allanol presennol.
- Gosod gorchudd dur yn lle ffenestri uchel a ffenestri llawr gwaelod ystafell y cylchredwr.
- Rhoi hylif plastig Deothane ar doeau ystafell y cylchredwr i gadw dŵr allan.
- Tynnu 12 drws consertina mawr i lawr a gosod cladin yn lle 9 ohonynt a drysau newydd yn lle 3 ohonynt.
- Gwaith atgyweirio concrit ar y gweddau dwyreiniol uchel (gwaith rhaffau).

Cychwyn y prosiect: [Chwefror 2016](#), [disgwyl cwblhau'r gwaith: Chwefror 2017](#).



Paratodau ICM lefel 1-5 storfeydd diogel yr adweithyddion

Mae cynnydd da wedi'i wneud â'r gwaith ac mae mwy nag un rhan o dair o'r lefelau lloriau yn y ddwy storfa ddiogel bellach yn wag ac wedi'u cloi. Er mwyn gwneud hyn bu'n rhaid cael gwared ar lawer iawn o wastraff/deunyddiau a oedd wedi'u gadael ar ôl. Pan fydd y rhaglen wedi'i chwblhau, bydd yr holl wastraff a oedd wedi'i adael ar ôl wedi'i glirio o bob un o'r dau ddeg dau lefel yn storfeydd diogel y ddau adweithydd, bydd unrhyw berygl sy'n weddill yn cael ei sefydlogi a'i reoli a bydd yr ardaloedd yn cael eu cloi.

Cychwyn y prosiect: Diwedd 2015, disgwyl cwblhau'r gwaith: Awst 2016

Gwaith cryfhau ochrau bwyleri'r storfeydd diogel, cam 1

Mae'r gwaith hwn yn cynnwys tynnu dros 6,000 o estyll sgaffaldiau a hen sgaffaldiau wedi'u halogi gan asbestos o 11 o flychau bwyleri a 7 bwlch. Bydd sgaffaldiau llai, wedi'u hadeiladu er mwyn hwyluso gwaith cryfhau yn y dyfodol, yn cael eu gosod yn lle'r rhain.

Cychwyn y prosiect: Diwedd 2015, disgwyl cwblhau'r gwaith: Rhagfyr 2016

Gwaith cryfhau ochrau bwyleri'r storfeydd diogel, cam 2

Ar ôl tynnu'r hen sgaffaldiau a darparu strwythur sgaffaldiau addas sy'n caniatáu mynediad i'r blychau bwyleri a'r bylchau sydd rhyngddynt bydd modd dechrau ar y gweithgareddau cryfhau terfynol i storfeydd diogel y ddau adweithydd. Mae cwmpas y gwaith hwn yn cynnwys clirio asbestos cyn gosod bracedi cryfhau a gosod lwfrau gwyntyllu newydd. Mae'r pecyn gwaith hwn yn cael ei osod ar dendr a disgwylir y bydd y ceisiadau'n dod i law tua canol mis Mai. Disgwylir y bydd y gwaith ar yr adeiladau'n dechrau yng Ngorffennaf 2016.

Draeniau o dan y pyllau

Yn dilyn y DAR 4 llwyddiannus ar gyfer cael gwared ar Ddraen Rhif 7 a'r llythyr dilynol ar gyfer gweithredu, dechreuodd y gwaith o gael gwared ar Ddarn / Draen 7 ar 10 Chwefror 2016. Datblygwyd rhaglen i gael gwared ar y cyflenwad o Wastraff Lefel Canolraddol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol a chwblhawyd y sgôp yn llwyddiannus ar 30 Mawrth 2016. Mae cael gwared ar Ddraen Rhif 7 yn cyfrif am tua 50% o'r cyflenwad gwastraff lefel canolraddol ar gyfer yr holl byllau. Mae'r gwaith o gau'r ffos yn ôl wedi'i raglennu ar gyfer canol Mehefin ar ôl mynd â 27o samplau craidd 50mm i'w dadansoddi.

Ar ôl cwblhau'r gwaith dadhalogi brasnaddion ym Man Derbyn y Gogledd, mae mynediad ar gael yn awr i Ddraen Rhif 1. Mae hyn yn galluogi'r tîm i wneud y twll mynediad â diamedr o 300mm uwchben y draen sy'n caniatáu mynediad i'r cyfrwng

hidlo yn ffos Draen Rhif 1. Mae cwmpas gwaith technegol wedi'i baratoi ar gyfer samplu ac archwilio Draen Rhif 1 ynghyd â Draen Rhif 16.

Brasnaddion y pyllau

Mae'r gwaith dadhalogi brasnaddion ar gyfer Man Derbyn y Gogledd a Man Derbyn y De wedi cael ei gwblhau. Mae gwaith wedi dechrau ar y drws mynediad BROKK o Fan Derbyn y De er mwyn galluogi'r BROKK i fynd i mewn i gwblhau'r gwaith dadhalogi brasnaddion yn y Gwagle Pyllau De.

Ar hyn o bryd mae 126 o fasgedu dur gwrthstaen sy'n llawn hen Wastraff Lefel Ganolraddol yn cael eu storio yn y Gwagle Pyllau Gogledd. Bydd basgedi'r Gwagle Pyllau Gogledd yn cael eu gwaredu drwy'r rhaglen Gweddillion Elfennau Tanwydd er mwyn cwblhau'r gwaith o ddadhalogi a phennu nodweddion yr ardaloedd hyn. Mae'r prosiect yn y cam dylunio manwl ar hyn o bryd. Mae'r gwaith o symud y basgedi wedi'i gynllunio ar gyfer Hydref 2016.

Gwastraff etifeddol

Mae cynnydd da'n cael ei wneud â'r gwaith i gael gwared ar wastraff etifeddol ac rydym wedi cyflawni targed 2015/2016, sef clirio 100m³ o'r gwastraff sydd wedi crynhoi, at ei gilydd. Mae tîm y safle yn canolbwyntio yn awr ar symud ymlaen â rhai o'r cynwysyddion ISO hanesyddol hŷn a lenwyd 10 mlynedd yn ôl.

Mae'r safle hefyd wedi llwyddo i dreialu'r defnydd o'r peiriant cywasgu drymiau, sydd eisoes wedi cywasgu nifer o ddrymiau, gan ostwng eu cyfaint yn sylweddol, a lleihau cyfanswm y gwastraff sy'n gadael y safle.

Cael gwared ar reiliau craenau (5.2te) Bae Golchi Fflasgiau'r Pyllau oddi ar y safle er mwyn ailgylchu'r metel – rhywbeth sydd wedi bod yn yr ardal gosod am dros 10 mlynedd.

Cael gwared ar 36 drwm 210 litr o wastraff olewog etifeddol, rhywfaint ohono'n dyddio'n ôl i'r cyfnod cynhyrchu, ar gyfer eu llosgi.

Rhaglen Gwastraff Actifedd Uwch

Erbyn hyn mae'r safle wedi llwyddo i gasglu'r slwtsh gwastraff lefel ganolraddol cyntaf o'r Brif Gladdgell Slwtsh (MSV). Mae dau becyn gwastraff wedi'u llenwi erbyn hyn. Rhwystrwyd y gwastraff rhag symud mewn leineri wedi'u growtio ac mae'n cael ei storio yn y man storio gwastraff lefel ganolraddol bellach.



Ym mis Mawrth, cwblhawyd y gwaith o drosglwyddo cyfanswm o 715 o ddrymiau math 1803 o storfa ddrymiau'r gogledd (RSP) i'r Cyfleusterau Storio Dros Dro. Er bod hyn yn her ynddo'i hun, gan fod y safle'n mynd yn hŷn, mae'n golygu bellach bod y resin Storfa Ddrymiau'r Safle a'r adeilad RSP ar gael ar gyfer datgomisiynu neu i'w aildddefnyddio i gefnogi rhaglenni eraill ar y safle.



Yr Amgylchedd, Iechyd, Diogelwch Eiddo a Phobl ac Ansawdd

Trosolwg o ddiogelwch Rhagfyr 2015 - Mai 2016

Am y rhan fwyaf o'r cyfnod mae'r safle wedi dangos arferion adrodd da, ym mhob rhan o'r gweithlu, ac amharodwydd i oddef amodau is na'r safonau neu ymddygiad annerbyniol.

Mynegwyd pryder ynglŷn â'r rendr a ddefnyddiwyd i ymdrin â'r deunydd rhydd ar weddau allanol y tyllau grisiau yn adeiladau'r storfa ddiogel. Defnyddiwyd contractwyr arbenigol i gael diagnosis o'r broblem a chynnig ateb. Bydd yr ateb yn cael ei fabwysiadu cyn gynted ag y bo modd.

Mae pryder hefyd ynglŷn ag integriti cladin to'r storfa gwastraff lefel ganolraddol. Nid yw hyn yn effeithio ar ddiogelwch radiolegol mewn unrhyw ffordd ond mae'n bryder o safbwynt diogelwch confensiynol. Mae'r cwmni sydd wedi gosod y cladin wedi cael ei alw yn ôl i'r safle i wneud y gwaith yn iawn.

Cafwyd cyfnod pan oedd y larymau tân yn canu heb fod angen. Mae'r achosion hyn wedi cael eu hymchwilio gan yr adran Peirianeg Systemau ac yn dilyn hynny bwriedir gosod system ganfod mwg ar hyd rhan o goridor y Pyllau.

Er bod gan y safle record arbennig o dda at ei gilydd o ran gweithio'n ddiogel mewn lleoedd uchel arweiniodd dau ddigwyddiad yn agos at ei gilydd – un pan gafodd eitem ei gollwng ac un arall pan welwyd unigolyn heb ei fachu – at contractwr yn rhoi'r gorau i'r gwaith am gyfnod nes byddai'r safle'n fodlon bod camau addas wedi cael eu cymryd i sicrhau diogelwch pawb sy'n gweithio ar y safle.

Ymweliadau

Ymwelodd y Pwyllgor Materion Cymreig â'r safle ar 25 Ebrill i ddysgu mwy am ddatgomisiynu fel rhan o ymchwiliad i ddyfodol ynni niwclear yng Nghymru.



Pobl

Rydym yn dal i gefnogi ein gweithlu wrth i ni drosglwyddo i'r cam Gofal a Chynnal a Chadw. Roedd y niferoedd a oedd yn cael eu cyflogi neu eu cefnogi drwy'r safle ar 30 Ebrill fel a ganlyn:


Staff	155
Asiantaeth	51
Cyfanswm	206

Y Gymuned

Derbyniodd 16 o sefydliadau cymunedol gyfran o £91,412 o gyllid cynllun economaidd-gymdeithasol Magnox yn 2015/16 fel y nodir yn yr adroddiad economaidd-gymdeithasol.

Academi Sgiliau'r Traeth

Mae Clwb Pêl-droed Porthmadog wedi sicrhau pecyn ariannol gwerth £131,000 i adeiladu estyniad i adeilad presennol y clwb a fydd yn cael ei ddatblygu fel canolfan sgiliau a hyfforddiant i bobl leol. Dyfarnwyd £40,373 o gyllid cynllun economaidd-gymdeithasol Magnox tuag at gostau'r gwaith adeiladu a'r cyfarpar hyfforddi. Mae Coleg Meirion Dwyfor wedi cytuno i ddarparu hyfforddiant sgiliau cyflogadwyedd yn y ganolfan hyfforddi newydd o fis Medi ymlaen.



I gael rhagor o wybodaeth a'r newyddion diweddaraf o safle Trawsfynydd, ewch i:

<https://magnoxsites.com>

<https://twitter.com/magnoxsites>

<https://www.linkedin.com/company/magnox>

<https://www.flickr.com/photos/magnoxsites>